# Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid

Gorffennaf 2021

## Diben

**1.** Mae'r papur yn nodi cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid.

## Argymhelliad

**2.** Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ei gylch gwaith.

## Cefndir

**3.** Mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylch gwaith i:

> "(i) archwilio gwariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi;
>
> (ii) archwilio deddfwriaeth;
>
> (iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog; a
>
> (iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru."

**4.** Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau.

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**5.** Cylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

- cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 18A, 19 ac 20 y Senedd;

- o dan Reolau Sefydlog 19, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Senedd ynghylch defnyddio adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys craffu ar gyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru;

- o dan Reolau Sefydlog 18.10 a 18.11, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwylio gwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;

- o dan Reol Sefydlog 18A, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwylio gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

- gall y pwyllgor hefyd, fel rhan o'i gyfrifoldebau, ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru, a'r cynnydd wneir yn y cyswllt hwnnw; a

- gall y pwyllgor graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd.

**6.** Mae gwybodaeth fanylach ynghylch cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Mae rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Senedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Mehefin 2021.

# Atodiad 1: Cyfrifoldebau'r Pwyllgor

Mae prif rôl y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys:

- Craffu bob blwyddyn ar y canlynol
  - **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru** (a chyllidebau atodol cysylltiedig);
  - **Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd** (a chyllidebau atodol cysylltiedig)
  - **Amcangyfrif Archwilio Cymru** (ac amcangyfrifon atodol cysylltiedig);
  - **Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (ac amcangyfrifon atodol cysylltiedig);
- ystyried goblygiadau ariannol Biliau'r Senedd a chyflwyno adroddiad arnynt yn ystod Cyfnod 1;
- ystyried Biliau'r Senedd a gyflwynir gerbron y Senedd ac y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio ato;
- goruchwylio gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru (a Swyddfa Archwilio Cymru)
- goruchwylio gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru